

CABINET - TUESDAY, 16 JANUARY 2024

COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH 16 IONAWR 2024 AM 14:30

Yn Bresennol

Y Cyngorydd HJ David – Cadeirydd

JC Spanswick
Dr Williams

N Farr
JPD Blundell

W R Goode

J Gebbie

Swyddogion:

Oscar Roberts
Stephen Griffiths
Carys Lord
Claire Marchant
Janine Nightingale
Kelly Watson
Mark Shephard
Deborah Exton
Lindsay Harvey
Michael Pitman

Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Prif Swyddog y Gwasanaethau Rheoliadol, AD a Chyfreithiol
Prif Weithredwr
Dirprwy Bennaeth Cyllid
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd

Datgan Buddiannau

Y Cyngorydd Jane Gebbie – Buddiant Personol yn Eitem 4

280. Cymeradwyo Cofnodion

Penderfyniad wedi'i Wneud	Cymeradwyodd y Cabinet Gofnodion 19/12/2023 fel cofnod cywir a chywir
Dyddiad Gwneud y	16 Ionawr 2024

Penderfyniad	
--------------	--

281. Monitro Cyllideb 2023-24 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 3

Penderfyniad wedi'i Wneud	<p>Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor ar 31 Rhagfyr 2023.</p> <p>Amlinellodd y sefyllfa ariannol gryno ar 31 Rhagfyr 2023 fel y nodwyd yn adran 3 yr adroddiad. Roedd y prif bwysau ariannol ym meysydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (GCLI), Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol (TCY) a Digartrefedd.</p> <p>Roedd yr Atodiadau canlynol yn cyd-fynd â'r adroddiad:</p> <p>Atodiad 1 – Gostyngiadau Cyllidebol y flwyddyn flaenorol a gariwyd ymlaen i 2023-24 Atodiad 2 – Monitro gostyngiadau cyllidebol 2023-24 a thraciwr risg Atodiad 3 – Monitro'r gyllideb refeniw hyd at 31 Rhagfyr 2023</p> <p>Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol fod y Cyngor mewn sefyllfa anodd ac roedd hyn yn amlwg o'r adroddiad. Roedd yn bwysig ein bod yn monitro sefyllfa'r Cyngor ac yn tynnu sylw at y risgiau mwyaf a oedd yn cael eu hwynebu ym mhob chwarter er mwyn lliniaru cymaint â phosibl. Awgrymodd fod hyn yn cael ei ystyried y tu allan i'r cyfarfod i sicrhau ein bod yn adrodd ar yr alldro refeniw a'r gorwariant yn unol â hynny.</p> <p>Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar y gorwariant ac yn gallu gweithio ar ffyrdd ymlaen i leihau hwn. Un enghraifft oedd gwasanaethau fflyd, lle mae'r gorwariant wedi cynyddu ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Gofynnodd Aelodau'r Cabinet i unrhyw newidiadau mawr i orwariant gael eu hadrodd yn ôl cyn gynted â phosibl.</p> <p>Cytunodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid i edrych ar brosesau monitro cyllideb wrth symud ymlaen i sicrhau bod y rhain yn cael eu tynhau.</p> <p>Nododd y Cabinet y sefyllfa refeniw ragamcanol ar gyfer 2023-24.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Ionawr 2024

282. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2024-25 i 2027-28

Penderfyniad wedi'i Wneud	<p>Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid i'r Cabinet y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft ar gyfer 2024-25 i 2027-28, a oedd yn nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a meysydd cyllidebol wedi'u targedu ar gyfer arbedion angenrheidiol. Mae'r strategaeth yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2024-2028 a chyllideb referniw ddrafft fanwl ar gyfer 2024-25.</p> <p>Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ddrafft yn nodi'r blaenoriaethau gwariant ar gyfer y Cyngor am y 4 blynedd nesaf ochr yn ochr â chyllideb fanwl ar gyfer 2024-25. Ynghlwm fel atodiadau i'r adroddiad roedd y Pwysau Cyllidebol a'r Cynigion Gostwng y Gyllideb.</p> <p>Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod y cynigion yn Atodiad B yn tynnu sylw at feysydd arbedion posibl a'r risgiau cysylltiedig pe baent yn cael eu deddfu. Os bydd y SATC ddrafft yn cael ei chymeradwyo gan y Cabinet, bydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer ymgynghori â Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'r Cyngor i'w chymeradwyo ar 28 Chwefror 2024.</p> <p>Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol y Swyddogion a roddodd yr adroddiad hwn at ei gilydd gan ei fod yn heriol, o ystyried yr arbedion a wnaed eisoes flwyddyn ar ôl blwyddyn. Pwysleisiodd mai cynigion drafft oedd y rhain, ac nad oedd unrhyw beth wedi'i gytuno eto. Roedd y cynigion yn destun newid yn dilyn y broses graffu dros yr wythnosau nesaf, cyn cael eu cyflwyno i'r Cyngor o'r diwedd ddiwedd mis Chwefror. Mae llawer o'r cynigion yn cael eu hystyried yn risg uchel, ac felly bydd angen eu hystyried yn ofalus ar bob cam o'r broses.</p> <p>Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol fod cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael eu hadolygu'n gyson, ac ar hyn o bryd, fod gan bob swm o arian wrth gefn gyfiawnhad clir ynghylch pam na ellir ei ddefnyddio.</p> <p>Ychwanegodd fod yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb bellach yn fyw a gall y cyhoedd roi eu barn ar y gostyngiadau a chynnig unrhyw ddewisiadau amgen eraill sydd ganddynt.</p> <p>Cyflwynodd y Cabinet ar gyfer ymgynghori â'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gyllideb flynyddol 2024-25 a datblygiad SATC 2024-25 i 2027-28, fel y nodiwyd yn yr adroddiad hwn, cyn cyflwyno fersiwn derfynol i'w chymeradwyo gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2024.</p>
Dyddiad Gwneud y	16 Ionawr 2024

Penderfyniad	
--------------	--

283. Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol

Penderfyniad wedi'i Wneud	<p>Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i benodi llywodraethwyr awdurdod lleol i gyrff llywodraethu ysgolion a restrwyd ym mharagraff 3.1.</p> <p>Ar gyfer yr 11 swydd wag bresennol ar gyfer llywodraethwyr awdurdod lleol yn y 10 ysgol yn y tabl yn 3.1, roedd yr ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf cymeradwy ar gyfer eu penodi fel llywodraethwr awdurdod lleol ac nid oedd cystadleuaeth am y swyddi gwag. Felly, mae'r penodiadau argymelledig wedi'u nodi i'w cymeradwyo.</p> <p>Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau ym mharagraff 3.1.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Ionawr 2024

284. Cytundeb Diogelu Asedau Sylfaenol (CDAS) Network Rail ar gyfer Dymchwel Maes Parcio Aml-lawr Bracla 1

Penderfyniad wedi'i Wneud	<p>Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad a oedd yn tynnu sylw at y cynnydd o ran y cynnig i ddymchwel Bracla 1 ac yn ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen ymhellach.</p> <p>Eglurodd fod nifer o faterion yn ymwneud â'r safle ffisegol a'i agosrwydd at y rheilffordd yn ogystal ag archfarchnadoedd Aldi ac Asda. Tynnwyd sylw at y rhain yn adran 3 yr adroddiad.</p> <p>Tynnodd sylw at y ffaith mai un o'r amodau a nodwyd gan Network Rail yn y CDAS yw bod angen rhagdalau eu cost amcangyfrifedig o gynnal y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Nid yw Network Rail wedi darparu cyfanswm y costau amcangyfrifedig eto ac ni fyddant ar gael nes bod y contractwr dymchwel penodedig yn cyflwyno ei fethodoleg dymchwel ac yn dechrau trafod gyda Network Rail.</p> <p>Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd yr adroddiad ac roedd yn edrych</p>
---------------------------	---

	<p>ymlaen i'r broses fynd rhagddi. Mae cyfleuster coleg newydd yn cael ei adeiladu ger hen adeilad yr orsaf heddlu ac felly po gynharaf y bydd y gwaith hwn yn symud ymlaen, y cynharaf y gallwn elwa o hyn.</p> <p>Ategodd yr Aelod Cabinet dros Addysg y sylwadau hyn a gofynnodd, o ran y dymchwel, a yw'r coleg wedi cael gwybod am y broses a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â hyn.</p> <p>Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau eu bod wedi bod mewn ymgynghoriad â'r coleg o ddechrau'r broses 3 blynedd yn ôl ac yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses.</p> <p>Gwnaeth y Cabinet:-</p> <ol style="list-style-type: none">i. Nodi'r cynnydd o ran y cynnig i ddymchwel Bracla 1 a'r trafodaethau gyda Network Rail gan arwain at lunio'r CDAS.ii. Cymeradwyo ymrwmo i CDAS gyda Network Rail yn unol â'r hepgoriad a ganiatawyd dan reol 3.2.11 Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor.iii. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol, drafod a chytuno ar delerau terfynol y CDAS ac ymrwmo i'r cytundeb a/neu unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r CDAS.iv. Nodi y ceisir cymeradwyaeth ar gyfer y taliad ymlaen llaw yn ddiweddarach yn unol â pharagraff 9.4 y Rheolau Gweithdrefn Ariannol pan fydd lefel y ffioedd yn hysbys.v. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol, drafod a chytuno ar delerau terfynol y cytundebau perthnasol gydag Aldi ac ASDA ac ymrwmo i'r cytundebau hynny.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Ionawr 2024

CABINET - TUESDAY, 16 JANUARY 2024

Penderfyniad wedi'i Wneud	<p>Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ailgyflwyno gwaith torri glaswellt trefol a gwledig mewnol.</p> <p>Eglurodd fod cynnig wedi'i wneud i ddychwelyd gwaith torri glaswellt trefol a gwledig i ddarpariaeth fewnol ar ôl i'r contract presennol ddod i ben. Mynegwyd ffafriaeth ar gyfer gwasanaeth mewnol gan yr Aelod Cabinet dros Gymunedau er mwyn rheoli'n well y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir wrth ei ystyried yng nghyd-destun gweithrediadau torri glaswellt eraill sydd eisoes yn digwydd yn fewnol. Rhagwelwyd y byddai'r gost i gynnal lefel bresennol y gwasanaeth gan ddarparu'r allanol yn cynyddu oherwydd pwysau chwyddiant yn yr economi ac y byddai'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael ar hyn o bryd, felly byddai cael mwy o reolaeth dros ddarparu'r gwasanaeth hwn yn well ar gyfer rheoli'r gyllideb.</p> <p>Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd yr adroddiad a gobeithiodd, wrth symud ymlaen, y gallai'r gwasanaeth fod yn un gwasanaeth sy'n torri'r holl laswellt yn y fwrdeistref. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth wedi'i rannu'n ddau, lle mae parciau a chaeau chwarae yn cael eu gwneud dan delerau ac amodau ar wahân. Wrth symud ymlaen mae angen i ni fod yn fwy effeithlon, a bydd yr adroddiad hwn yn caniatáu ar gyfer hyn.</p> <p>Gwnaeth y Cabinet ar ôl gwneud diwygiad i'r argymhellion:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gymeradwyo dychwelyd y gwasanaeth torri glaswellt trefol a gwledig i ddarpariaeth fewnol.• Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd, gytuno ar newidiadau i lefel y gwasanaeth i fodloni'r gyllideb sydd ar gael.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Ionawr 2024

286. Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2022-23

Penderfyniad wedi'i Wneud	<p>Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2022-23.</p> <p>Eglurodd fod yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol yn cynnwys manylion nifer o feysydd fel y</p>
---------------------------	--

	<p>nodwyd yn adran 3 yr adroddiad. Roedd yn tynnu sylw at y cynnydd yn y galw ar Ofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant, fodd bynnag, roedd y gofynion hyn yn cael eu rheoli'n llwyddiannus o fewn targedau cydymffurfio.</p> <p>Yn dilyn golwg yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 ar 6 Rhagfyr 2023, cafodd argymhellion eu gwneud a'u cyflwyno i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad hwn i sicrhau bod gan yr Aelodau ymwybyddiaeth lawn o'u cyfrifoldebau o ran diogelu. Dywedodd y Pwyllgor Craffu hefyd y dylid cynnwys data cymharol o'r 5 mlynedd diwethaf i sicrhau darlun llawnach o sut mae'r Cyngor yn ymateb i'w gyfrifoldebau diogelu statudol.</p> <p>Talodd y Dirprwy Arweinydd deyrnged a chanmolodd y staff sy'n cyflawni eu dyletswyddau mor effeithiol, roedd yn bwysig tynnu sylw at hyn o ystyried y sefyllfa yr oeddem yn ei phrofi fel Cyngor ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae'n dangos ymrwymiad gan staff ac roedd y gwelliant parhaus yn amlwg.</p> <p>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y gall pobl wrthod cydsyniad os oes galluedd ganddynt. Roedd yn bwysig gwneud y gwahaniaeth hwnnw i'r cyhoedd sy'n darllen yr ystadegau.</p> <p>Tynnodd yr Arweinydd sylw at bwysigrwydd rhoi gwybod am bryderon diogelu, a dywedodd, os yw unrhyw un yn dymuno gwneud hynny, y gall wneud hynny'n ddienw.</p> <p>Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Lles mewn perthynas â thudalen 151 - trais yn erbyn menywod, nad oes ystadegau yma ynglŷn â hil, rhyw nac anabledd. Gofynnodd a oedd y rhain wedi'u cynnwys yn rhywle arall. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y rhain wedi'u cofnodi, fodd bynnag, byddai'n edrych ar gynnwys y rhain yn yr adroddiad blynyddol wrth symud ymlaen.</p> <p>Cymeradwyodd y Cabinet Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2022-23.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Ionawr 2024

**287. Polisiâu'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles - Polisi
Cofnodi Gofalwyr Maeth Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr a Pholisi
Cyllid Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr**

CABINET - TUESDAY, 16 JANUARY 2024

Penderfyniad wedi'i Wneud	<p>Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i bolisi Cyllid Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr (Atodiad 1) a Pholisi Cofnodi Gofalwyr Maeth Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr (Atodiad 2) er mwyn cefnogi gwasanaethau yng Ngwasanaeth Maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr).</p> <p>Eglurodd fod aelodau perthnasol o'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn ymgysylltu â'r ddau bolisi ac wedi rhoi cymorth wrth ddrafftio'r cynnwys polisi ar gyfer pob agwedd ar y gwasanaeth maethu. Mae polisi Cofnodi Gofalwyr Maeth newydd Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i ddatblygu i roi dealltwriaeth i Ofalwyr Maeth yn ymwneud â phwysigrwydd cofnodi, ynghyd ag amlinellu'r cofnodi sydd ei angen ganddynt, a sut a ble i storio eu cofnodion. Mae'r polisi Cyllid wedi'i ddiwygio i ddileu'r ffigurau penodol sy'n ymwneud â symiau lwfans. Y rheswm am hyn yw bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn gosod lwfans cynyddol i Ofalwyr Maeth bob blwyddyn, ac felly mae'r newid hwn yn sicrhau nad yw'r polisi yn hen oherwydd y codiadau blynyddol hyn.</p> <p>Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd bwysigrwydd bod gofalwyr maeth yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt ac iddynt deimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Tynnodd sylw at y gwaith anhygoel y mae gofalwyr maeth yn y fwrdeistref yn ei wneud i'n plant a dywedodd fod y buddion i blentyn yn sylweddol.</p> <p>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod gan Maethu Cymru ymgyrch barhaus i recriwtio gofalwyr maeth, ac anogodd bobl sydd wedi ystyried bod yn ofalwyr maeth i edrych ar eu gwefan.</p> <p>Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol a fyddai modd rhoi mwy o wybodaeth ar y cynllun 'Atgyfeirio Ffrind'</p> <p>Gwnaeth y Cabinet ystyried a chymeradwyo polisi Ariannol diwygiedig Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr yn Atodiad 1, a pholisi Cofnodi Gofalwyr Maeth newydd Maethu Cymru Pen-y-bont ar Ogwr yn Atodiad 2.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	16 Ionawr 2024

288. Eitemau Brys

Penderfyniad wedi'i Wneud	Dim
Dyddiad Gwneud y	16 Ionawr 2024

CABINET - TUESDAY, 16 JANUARY 2024

Penderfyniad	
--------------	--

I wyllo trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00pm